



Cyngor Sir Penfro
Rhaglen Weinyddu



2021 - 2022

Rhagair gan yr Arweinydd a'r Cabinet

Ers cyhoeddi'r 'Rhaglen Weinyddu' gyntaf erioed ar gyfer Cyngor Sir Penfro yn 2018, a oedd yn nodi uchelgeisiau'r Weinyddiaeth wleidyddol newydd, rydym wedi dod ymhell - ond mae llawer i'w wneud o hyd.

Mae'n deg dweud nad yw'r cyngor wastad wedi bod â'r enw gorau ac er nad ydym wastad wedi gwneud popeth yn iawn nid oes amheuaeth ein bod, dros y blynyddoedd diwethaf, wedi gosod y sylfeini i gyflawni'r hyn a nodwyd gennym yn 2018 - cyflawni newid cadarnhaol a pharhaus i Sir Benfro.

Bydd y 'Rhaglen Weinyddu' newydd hon yn bwrw golwg yn ôl ar rai o'r cyflawniadau hynny, yn adlewyrchu'r gwaith sydd ar y gweill ac yn ystyried yr heriau mawr y bydd angen i ni fynd i'r afael â hwy fel cyngor a sir ymhell i'r dyfodol.

Mae llawer wedi newid ynglŷn â'r cyngor ers ein 'Rhaglen Weinyddu' wreiddiol, y mae peth ohono wedi digwydd trwy'r profiad o ymateb i argyfwng Covid-19, ac mae hyn wedi atgyfnerthu ein dealltwriaeth am ble a sut y mae angen i ni barhau i wella. Mae 'dechreuadau newydd' yn cael eu gweld yn y cyngor – nid ein geiriau ni yw'r rhain, ond geiriau ein cymheiriaid ar draws llywodraeth leol y gwnaethom estyn gwahoddiad iddynt y llynedd i fwrw golwg fanwl arnom i amlygu ein llwyddiannau a'n diffygion.

Mae ein hyder a'n penderfyniad yn cynyddu ac mae ein huchelgais yn gryf – a bydd arnom angen hynny i gyd a mwy i ymgodymu â'r heriau a wynebier. Brwydro yn erbyn ac ymateb i'r aflonyddwch a'r trasiedi a achoswyd gan y pandemig, ynghyd â'r heriau y mae trigolion a busnesau'n eu hwynebu o ganlyniad i effaith gymdeithasol ac economaidd yr argyfwng fydd y flaenoriaeth i ni o hyd dros y misoedd a'r blynyddoedd sydd o'n blaenau.

Ar yr un pryd byddwn yn mynd benben ag ystod o heriau eraill sy'n wynebu Sir Benfro – heriau sy'n gymhleth ac yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydweithio ar draws y cyngor a chyda phartneriaid megis gwasanaethau iechyd, yr heddlu a chynghorau tref a chymuned. Mae'r rhain yn cynnwys her helpu i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd; mynd i'r afael â lefelau tlodi plant a welir yn y sir yn berthynol i weddill Cymru; gwella deilliannau addysgol i'n pobl ifanc; rheoli'r galw cynyddol am ofal cymdeithasol; a chynyddu argaeledd a fforddiadwyedd tai i bobl leol.

Wrth i ni weithio i ddeall yr heriau hyn a mynd i'r afael â hwy'n well, mae angen i ni weithio gyda'r rhai sy'n eu profi i sicrhau ein bod yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu'r datrysiadau a'r heriau cywir. Fel cyngor, nid oes gennym, ac ni ddylem byth feddwl bod gennym, yr holl atebion. Fe wnaeth argyfwng Covid-19 amlygu grym pobl a chymunedau lleol, gan gynnwys y sector gwirfoddol a chymunedol, i wneud gwahaniaeth mawr ac mae angen i ni gefnogi ac adeiladu ar y ffordd honno o ennyn ymgysylltiad dinasyddion a chymunedau a'u galluogi.

Rydym yn wynebu hyn wrth i gynghorau yng Nghymru barhau i ymateb i'r heriau ariannol mwyaf sylweddol iddynt eu profi erioed. Mae gennym doriadau creulon i'n cyllidebau y mae'n rhaid i ni ymgodymu â hwy o hyd, sy'n golygu bod angen i ni fynd i'r afael â bwlch o ran cyllid a ragamcanir o fwy na £61m dros y pedair blynedd nesaf o fewn cyllideb gyfredol o £235m. Mae angen dod o hyd i ychydig o dan £12m o hyn yn y flwyddyn ariannol gyfredol a daw hynny ar ben pontio bwlch o fwy na £98m dros y blynyddoedd diwethaf, yr ydym wedi'i gyflawni gan ddiogelu a chynnal gwasanaethau allweddol a chymorth i'r rhai mwyaf agored i niwed yn ein cymuned.

Wrth edrych tua'r dyfodol, byddwn yn ein cadw ein hunain o fewn y darlun hwn o adnoddau sy'n mynd yn llai trwy ymgysylltu'n effeithiol ar lefel ranbarthol a chenedlaethol, gan gynnwys â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, i fanteisio ar gyfleoedd a chyfundrefnau ariannu sy'n bodoli ar y lefel honno. Bydd gwneud hynny'n fodd i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r manteision a'r buddion gorau posibl i Sir Benfro.

Gallwn fod yn falch o'n sir. Heb os mae'n un o'r lleoedd mwyaf prydferth yn y Deyrnas Unedig ac mae'r potensial sydd i'w gael yma'n enfawr. Rydym yn gwbl ymrwymedig i wireddu'r potensial hwnnw ac, wrth wneud hynny, gwneud gwahaniaeth sylfaenol i fywydau'r bobl a'r busnesau sy'n bodoli yma.

Rhestr o Bortffolios a phwy sy'n eu dal:

- Y Cyngorydd David Simpson (Digysylltiad), Arweinydd
- Y Cyngorydd Phil Baker (Digysylltiad), Aelod Cabinet dros Seilwaith, Trwyddedu a Digwyddiadau Mawr
- Y Cyngorydd Michelle Bateman (Digysylltiad), Aelod Cabinet dros Dai
- Y Cyngorydd Jon Harvey (Digysylltiad), Aelod Cabinet dros Gynllunio
- Y Cyngorydd Tessa Hodgson (Digysylltiad), Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol
- Y Cyngorydd Bob Kilmister (Democrat Rhyddfrydol), Aelod Cabinet dros Gyllid
- Y Cyngorydd Paul Miller (Llafur), Aelod Cabinet dros yr Economi, Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant
- Y Cyngorydd Neil Prior (Digysylltiad), Aelod Cabinet dros Drawsnewid a TG
- Y Cyngorydd Cris Tomos (Plaid Cymru), Aelod Cabinet dros yr Amgylchedd, Diogelu'r Cyhoedd a'r Gymraeg
- Y Cyngorydd Guy Woodham (Llafur), Aelod Cabinet dros Addysg a Dysgu Gydol Oes



Amcanion y Cynllun Corfforaethol

Fe sefydlodd Cyngor Sir Benfro'r canlynol fel yr amcanion ar gyfer yr awdurdod mewn perthynas â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae hyn yn gosod cyd-destun allweddol ar gyfer gwaith y Cyngor a'r Rhaglen Weinyddu:

- Addysg: Sir Benfro – lle gwyd i ddysgu, byw a thyfu
- Gofal cymdeithasol: Byddwn yn gwneud beth bynnag a allwn i gynorthwyo pobl i fyw'r bywyd gorau y gallant tra'n canolbwyntio ar atal a sicrhau bod pobl sy'n agored i niwed yn ddiogel
- Economaidd: byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i hybu Sir Benfro fel lle gwyd i ymweld, byw a gweithio
- Tai: Gwneud cartrefi fforddiadwy, gweddus ac addasadwy yn bosibl i bawb mewn lleoliadau cynaliadwy
- Byddwn yn hybu balchder yn Sir Benfro gan geisio gwella ei henw da fel lle am ansawdd amgylcheddol eithriadol
- Trawsnewid yn y Cyngor: tri maes, sef technoleg, diwylliant a pherthnasoedd

Pum Ffordd o Weithio

Wrth wneud ein gwaith fel cyngor, rydym yn dilyn y 'Pum Ffordd o Weithio' a sefydlwyd dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015:

- Hirdymor: pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd
- Integreiddio: ystyried sut y gall amcanion llesiant y cyngor effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill
- Cynnwys: pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyrraedd y nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y maent yn ei gwasanaethu
- Cydweithio: cydweithio gydag unrhyw berson arall (neu wahanol rannau o'r cyngor ei hun) a allai helpu'r cyngor i gyflawni ei amcanion llesiant
- Atal: sut y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion

Y 'Nodau Llesiant' a sefydlwyd dan y Ddeddf yw:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru iachach
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol, a ddechreuodd ar 31 Mawrth 2021, wedi'i bwriadu i ddwyn deilliannau gwell i'r rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. Fel cyngor rhaid i ni roi sylw dyladwy i'r Ddyletswydd wrth wneud penderfyniadau strategol ac ystyried a rhagweld effaith debygol ein penderfyniadau ar bobl sy'n profi'r anfanteision hyn. Y ffordd yr ydym yn asesu effaith debygol ein penderfyniadau strategol yw trwy broses a elwir yn Asesiad Effaith Integredig (AEI). Mae'r cyngor wedi dechrau sefydlu'r egwyddorion a fydd yn helpu i sicrhau ein bod yn ystyried y Ddyletswydd trwy adolygu a diwygio ein proses AAE.



Uchelgeisiau ar gyfer Sir Benfro

Mae Cyngor Sir Penfro yn hynod o uchelgeisiol dros y bobl a'r cymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu. Gyda hyn daw cyfrifoldeb aruthrol a'r angen i wneud penderfyniadau caled. Mae peth wmbredd o hyn yn golygu ceisio taro'r cydbwysedd cywir mewn meysydd lle ceir galwadau sy'n cystadlu â'i gilydd ac felly tensiynau cysylltiedig.

Enghraifft o hyn yw canlyniad uniongyrchol y ffaith bod Sir Benfro'n un o'r lleoedd prydferthaf yn y Deyrnas Unedig – sy'n dod â manteision enfawr ac ystod o bwysau. Daw hynny ar ffurf ceisio cynyddu i'r eithaf y manteision economaidd sy'n deillio o fod yn sir y mae ar bawb eisiau ymweld â hi ac, o bosibl, adleoli iddi, gan hefyd reoli'r effeithiau y mae hyn yn eu cael ar ein hamgylchedd a'r galwadau am dai.

Mae'r canlynol yn rhoi blas ar y mathau o heriau allweddol sy'n wynebu'r sir a'r ffordd y mae ein uchelgeisiau wedi'u teilwra i helpu i fynd i'r afael â hwy:

Tai

Mae prisiau tai a lefelau rhent y farchnad yn parhau i godi'n lleol, tra bo lefelau incwm yn dal i fod islaw cyfartaleddau cenedlaethol, ac felly mae heriau gwirioneddol yn dod i'r amlwg i bobl leol o ran fforddiadwyedd tai.

Rydym yn ceisio gwella'r sefyllfa trwy amrywiaeth o ddulliau. Mae hyn yn cynnwys adeiladu tai cyngor, gyda'r nod o godi 400 o dai cyngor dros y pum mlynedd nesaf i ategu'r 120 o gartrefi cymdeithasol a fforddiadwy sydd eisoes yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn ar gyfartaledd. Mae gwaith i godi 33 o dai cyngor yn Johnston eisoes wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda ac mae datblygiadau pellach ar y gweill ar gyfer Tiers Cross ac ar Charles Street yn Aberdaugleddau. Fel y mae pethau ar hyn o bryd, rydym yn buddsoddi oddeutu £50m mewn adeiladu tai cyngor.



Rydym hefyd yn gweithio i brynu eiddo preifat ar gyfer tai cymdeithasol neu fforddiadwy. Mae cyfleoedd ychwanegol yn bodoli ar ffurf cartrefi ac eiddo gwag – gyda mwy na 500 o'r rhain yn y sir sydd wedi bod yn wag am fwy na thair blynedd. Gellid ystyried y rhain yn adnodd 'a wastreffir' o ran cartrefi posibl ar gyfer pobl leol. Rhan allweddol o'n dull ar y cyfan yw codi premiwm y dreth gyngor ar ail gartrefi ac eiddo gwag, gyda'r arian y mae hyn yn ei greu'n ei gwneud yn bosibl buddsoddi mewn rhagor o dai fforddiadwy.

Gellir ystyried bod byw mewn cartref gweddus a chynnes yn hawl ddynol sylfaenol ac eto nid yw llawer o gartrefi Sir Benfro'n cyrraedd y safon. Ar gyfer ein stoc tai cyngor ni ein hunain, cyrhaeddwyd Safon Ansawdd Tai Cymru. Fodd bynnag, mae tri ar ddeg y cant o'r cartrefi yn Sir Benfro'n dai rhent preifat ac mae rhai o'n trigolion mwyaf agored i niwed yn byw mewn llety o'r fath. Mewn achosion penodol mae rhai o'r cartrefi hyn o safon wael iawn. Yn ddiweddar mae Llywodraeth Cymru wedi gosod her i gynghorau oruchwyllo effeithlonrwydd ynni uwch ar gyfer cartrefi, gyda hynny'n canolbwyntio i ddechrau, ac erbyn 2030, ar dai cymdeithasol a chartrefi preifat lle mae pobl yn byw mewn tldi tanwydd.

Yn dilyn newidiadau i bolisi Llywodraeth Cymru, rydym wedi gweld cynnydd yn lefel digartrefedd, gyda chynnydd o 360% i 69 o aelwydydd yr oeddem yn darparu llety dros dro ar eu cyfer.

Er mwyn mynd i'r afael â hyn bu'n rhaid wrth gydweithio da rhwng gwasanaeth digartrefedd y Cyngor a sefydliadau partner. Y ffocws allweddol wrth fynd i'r afael â digartrefedd yn y dyfodol fydd cydnabod ei fod yn fater ehangach o lawer na mater sy'n ymwneud â thai yn unig. Gan weithio gyda gwasanaethau eraill y Cyngor a phartneriaid mae angen i ni atal digartrefedd a, lle profir na ellir ei osgoi, rhaid i ni sicrhau ei fod yn brin, yn fyr ac nad yw'n cael ei ailadrodd. Bydd hyn yn golygu ein bod yn ail-lunio gwasanaethau i ailgartrefu'n gyflym a rhoi datrysiadau tymor hwy ar waith yn lle dibynnu ar wasanaethau brys, dros dro a hostelau.

Wrth i bobl fynd yn hŷn neu brofi heriau sy'n gysylltiedig ag anabledd neu symudedd, mae bod â chartref sy'n hygyrch ac wedi'i addasu i'w hanghenion, ac sydd felly'n eu galluogi i fyw yno am gyhyd â phosibl, yn eithriadol o bwysig. Rydym yn ymrwymedig i alluogi hyn i ddigwydd trwy addasu cartrefi yn y sector tai cymdeithasol a'r sector tai preifat. Mae hyn yn flaenoriaeth i ni ac rydym yn cydnabod bod angen cynnal adolygiad o'r gwasanaeth hwn er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i allu diwallu anghenion trigolion. Rydym hefyd yn datblygu tai gwarchodol a thai â chymorth ar gyfer pobl leol mewn amryw leoedd ledled y sir, gan gynnwys tai gofal ychwanegol yn Neyland.

Yr Amgylchedd, Cynaliadwyedd a'r Newid yn yr Hinsawdd



Mae'r cyngor wedi ymuno ag eraill i ddatgan ei bod hi'n argyfwng ar yr hinsawdd. Rydym yn cydnabod y risgiau a achosir i gymunedau o ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys codiadau yn lefel y môr a mwy o stormydd a llifogydd ac rydym yn ceisio rheoli a lliniaru'r rhain.

Fe weithredodd y cyngor newidiadau i'w wasanaeth gwastraff ac ailgylchu ar gyfer 60,000 o aelwydydd a busnesau'r sir tuag at ddiwedd 2019. Mae'r rhain

wedi golygu bod cyfradd ailgylchu'r sir wedi codi i fod yr uchaf yng Nghymru a'r DU – gyda 71.7% o'r gwastraff a gesglir yn cael ei ailgylchu yn 2019-20 o'i gymharu â 62% yn y flwyddyn flaenorol.

Rydym yn ceisio sefydlu Sir Benfro fel 'Cartref ynni gwyrdd yng Nghymru' – gan gynorthwyo'r sir i arwain y ffordd o ran cynhyrchu trydan a hydrogen adnewyddadwy ac, ar yr un pryd, hybu'r economi leol. Mae hyn yn cynnwys cenhedlaeth newydd o swyddi peirianeg 'lân a gwyrdd' trwy brosiectau megis prosiect ynni adnewyddadwy Hwb Morol Doc Penfro a phrosiect Aberdaugleddau: Teyrnas Ynni yn archwilio'r posibilrwydd o ddatgarboneiddio ynni.

Mae gwaith yn mynd rhagddo hefyd i leihau ôl troed carbon tai, adeiladau eraill a thrafnidiaeth ac mae'r cyngor hefyd yn rhoi cymhellion i ddechrau defnyddio cerbydau ag allyriadau isel iawn ac yn gwella'r rhwydwaith o fannau gwefru cerbydau trydan.

Trafnidiaeth

Mae'n amlwg bod gan ein gwaith yn y sir rôl fawr o ran diogelu ein hamgylchedd. Mae hefyd yn hanfodol o ran galluogi pobl i deithio o amgylch ar gyfer gwaith, ysgol a hamdden ac mae lleihau tagfeydd traffig yn un o'n prif nodau.

Rydym yn ymrwymedig i wella dengarwch a dibynadwyedd y rhwydwaith trafniadaeth, gan gynnwys trenau a bysiau, a'r modd y caiff ei integreiddio yn ogystal â chynyddu i'r eithaf ddiogelwch pobl sy'n defnyddio ein priffyrdd a'n systemau trafniadaeth. Mae diwallu anghenion defnyddwyr gwasanaethau trafniadaeth agored i niwed yn hollbwysig hefyd. Rydym yn parhau i gefnogi a datblygu gwasanaethau bysiau a chudiant cymunedol lleol i ddiwallu anghenion ein cymunedau lleol ac i'w cysylltu â gwasanaethau rheilffordd i gysylltu'n well â lleoedd ledled rhanbarth De Orllewin Cymru a'r tu hwnt.



Mae'r cyngor yn awyddus i gefnogi'r economi ymwelwyr leol trwy weithio gyda phartneriaid i ddarparu cyfleoedd teithio mwy cynaliadwy ar gyfer cael mynediad at gefn gwlad a'i archwilio. Mae hyn yn cynnwys datblygu llwybrau hamdden ar gyfer cerdded a beicio sy'n lleihau i'r eithaf yr effaith ar yr amgylchedd naturiol.

Mae ein huchelgeisiau ar gyfer trafniadaeth yn cynnwys:

- Cyflawni Ffordd Osgoi'r A40 Llanddewi Felfre, gan ddechrau tuag at ddiwedd 2021
- Cyflawni'r gwelliannau i'r A40 Penblewin i Redstone Cross gyda'r rhain hefyd i fod i ddechrau tuag at ddiwedd 2021
- Gwasanaethau rheilffordd gwell i Orllewin Cymru gan gynnwys: Metro De Orllewin Cymru; Llundain Paddington i Abertawe bob 30 munud; Trên Cyflym Gorllewin Cymru; amser teithio byrrach rhwng Caerdydd a De Orllewin Cymru; a Llundain mewn trên mewn llai na phedair awr. Dechreuodd ymgynghoriad cyhoeddus cynhwysfawr ynghylch yr holl gynigion ar gyfer y rheilffyrdd ym mis Mawrth 2021.
- Estyn y rhwydwaith o lwybrau beicio a cherdded rhwng trefi Sir Benfro i leihau'r defnydd o geir ac annog pobl i fod yn fwy egniol yn gorfforol
- Gwelliannau i gyfnewidfeydd cludiant cyhoeddus yn Hwlfordd, Aberdaugleddau a Doc Penfro
- Diwygio gwasanaethau bysiau - gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru a chyllid cysylltiedig
- Gwelliannau i dwneli Brynglas



Band Eang a Chysylltedd Digidol



Mae'r ddarpariaeth o ran band eang ffeibr cyflym iawn a thechnolegau symudol dibynadwy ledled Sir Benfro'n waeth nag mewn rhannau eraill o'r wlad, gyda chyfran sylweddol o safleoedd heb fynediad at y gwasanaethau digidol y mae eu hangen arnynt. Mae mynediad o'r fath yn hanfodol i alluogi trigolion a busnesau i ffynnu.

Mae gan oddeutu 89% o safleoedd y gallu i gael mynediad at gyflymderau band eang o fwy na 30Mbps ond dim ond 7% sydd â mynediad at fand eang ffeibr llawn, o'i gymharu â ffigyrau cyfatebol yng Nghaerdydd o 99% a 39% yn y drefn honno. Yn 2019 nodwyd fod Sir Benfro ymhlith y 10% gwaethaf o ran ardaloedd ym Mhrydain Fawr ar gyfer cyswllt rhyngrwyd Band Eang.

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod cymunedau ledled Sir Benfro'n cael budd o'r cysylltedd angenrheidiol, gan gynnwys mynediad llawn at fand eang o ansawdd da erbyn 2023.

Mae'r cyngor wedi llwyddo i sicrhau £4m trwy gynnig am gyllid gan Lywodraeth y DU a fydd yn golygu bod cysylltedd ffeibr llawn yn cael ei ddarparu ar gyfer ystod eang o safleoedd y cyngor a'r holl feddygfeydd teulu yn Sir Benfro erbyn mis Medi 2021 a byddir yn adeiladu ar hyn yn y misoedd sy'n dilyn. Dechreuodd cynllun sy'n targedu Treamlod, Crymych, Dale a'r Mot yn 2019, i ddarparu cysylltiadau rhyngrwyd ffeibr llawn ar gyfer dros 330 o fusnesau sy'n cymryd rhan a'r trigolion yno, eto gyda chymorth cyllid gan y Llywodraeth, ac mae ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau eleni. Mae'r gwaith hwn yn cael ei estyn i sicrhau darpariaeth ar gyfer Herbrandston, Llanycefn, Maenclochog, Nyfer, Slebets a Chas-wis eleni hefyd, gan helpu 146 o fusnesau a thrigolion lleol pellach.

Do You Need Better Broadband?

Ydych Chi Angen Band Eang Gwell?

Register online / Cofrestrwch ar-lein
www.pembrokeshire.gov.uk/broadband-survey
www.sir-benfro.gov.uk/band-eang-arolwg

Ultrafast fibre broadband is coming to Pembrokeshire

Do You:

- Feel it takes too long to download things?
- Compete with other people in the house to access the internet?
- Struggle to run your business efficiently?

If so, complete the online survey (3 minutes). The more people who sign up locally the better. Please share.
More information:
www.pembrokeshire.gov.uk/broadband

Thank you
Broadband Team

Mae band eang ffeibr gwibgyswllt yn dod i Sir Benfro

Ydych chi'n:

- Teimlo bod pethau'n cymryd gormod o amser i lawrlwytho?
- Cystadlu â phobl eraill yn y tŷ i gael mynediad i'r rhyngrwyd?
- Ei chael hi'n anodd rhedeg eich busnes yn effeithlon?

Os felly, cwblhewch yr arolwg ar-lein (3 munud). Gorau po fwyaf o bobl sy'n cofrestru'n lleol. Rhannwch os gwelwch yn dda.
Rhagor o wybodaeth:
www.sir-benfro.gov.uk/band-eang

Deddf yn fawr
Tim Band Eang

Mae cynyddu i'r eithaf y cyfleoedd ar gyfer cysylltedd ffonau symudol yn flaenoriaeth hefyd.





Ceir galw demograffig cynyddol am wasanaethau gofal cymdeithasol ar gyfer oedolion a phlant, a rhagfynegir y bydd hyn yn parhau am y degawd nesaf a'r tu hwnt. Daw hyn ar yr un pryd ag y mae lefel yr adnoddau sydd ar gael i gynghorau wedi bod yn lleihau. Yn amlwg, mae'r materion yma'n mynd y tu hwnt i gyllid ac yn ymwneud â llesiant pobl a'u gallu i fwynhau bywydau hapus, boddhaus, diogel ac annibynnol.

Mae'r ffordd y mae gofal cymdeithasol yn gweithredu yng Nghymru wedi newid yn sylweddol ers cyflwyno Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae newid o'r model diffyg blaenorol o gynnal asesiadau a darparu gofal, i ddull seiliedig ar gryfderau a danategir gan fodel ymarfer 'Arwyddion Diogelwch', wedi arwain at wahaniaeth sylweddol mewn ymarfer gwaith cymdeithasol ac at sgysiau mwy cadarnhaol gyda'n poblogaeth a deilliannau mwy cadarnhaol ar eu cyfer. Rydym wedi gwneud ymchwil leol ymhlith defnyddwyr a staff ac mae hyn wedi dangos i ni bod gan bobl farn gadarnhaol am y dull. Byddwn yn parhau i adeiladu ar hyn.

Mae angen buddsoddi ymhellach mewn modelau gwasanaeth arloesol a mabwysiadu dull sefydliad cyfan ar draws y cyngor lle mae 'llesiant' yn y cwestiwn yw'r allwedd i'r agenda ataliol. Mae ein huchelgeisiau yn hyn o beth yn tyfu ond rydym yn cydnabod y cyfyngiadau o ran adnoddau. Mae atal a hefyd ffocws ar gefnogi pobl gyda'r 'hyn sy'n bwysig' iddynt wedi peri i ni newid o fodelau gwasanaeth traddodiadol i ddulliau cymunedol mwy arloesol. Mae cefnogi datblygiad cymunedau 'egniol', 'cysylltiedig' a 'charedig' yn ganolog i'n ffordd newydd o weithio gyda chymunedau.



Mae ein huchelgeisiau'n cynnwys cynyddu'r defnydd o fodelau 'annhraddodiadol' megis 'taliadau uniongyrchol' a 'cysylltu bywydau' fel bod gan bobl a gofalcwyr fwy o ddewis, rheolaeth a hyblygrwydd mewn perthynas â'r gofal y maent yn ei gael. Rydym hefyd wedi gweithio gyda'n cymuned i gydgyhyrchu ac yna ymgynghori ynghylch model newydd o gyfleoedd dydd ac rydym yn awyddus i sicrhau bod y model cymunedol cynhwysol newydd hwn yn dwyn ffrwyth, y gellir ei gyflawni am gost is hefyd yn ein tyb ni. Rydym hefyd wedi buddsoddi mewn darparu rhai gwasanaethau'n uniongyrchol fel cyngor, megis ailalluogi a gofal cartref, yn hytrach na gwahodd eraill i'w darparu ar ein cyfer a byddwn yn parhau i archwilio'r posibilrwydd o daro cydbwysedd rhwng darparu'n uniongyrchol a dulliau cymunedol yn ogystal ag ystod o fodelau gofal wedi'u comisiynu yn cael eu darparu trwy eraill.

Dros y blynyddoedd blaenorol bu cynnydd cyson a pharhaus yn nifer y plant sy'n derbyn gofal gan y cyngor – o 153 ym mis Mawrth 2017 i 220 ym mis Mawrth 2021. Mae hyn yn cynnwys cynnydd o 184 o blant ym mis Mawrth 2020, ar ddechrau pandemig Covid-19. Mae'r lefel hon o gynnydd wedi bod yn gyffredin ledled Cymru.

Cafodd ein gwasanaeth plant arolygiadau yn 2018 a 2020 ac roedd yr adroddiadau ar y ddau'n gadarnhaol ar y cyfan. Amlygwyd meysydd ar gyfer gwella a oedd eisoes wedi cael eu hadnabod yn fewnol ac mae camau gweithredu wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r rhain.

Yn fwyaf sylfaenol, uchelgais y cyngor yw osgoi'r angen i blant dderbyn gofal gennym trwy sicrhau ein bod yn gweithredu'n gynnar lle bynnag y bo'n bosibl a cheisio atal materion rhag codi. I'r plant hynny y mae angen iddynt gael cymorth neu gael eu hamddiffyn gennym, byddwn yn amcanu at ddarparu hyn tra'u bod yn aros yn eu teulu eu hunain. Bydd plant y mae angen gofal arnynt i ffwrdd oddi wrth eu teulu'n cael eu lleoli o fewn Sir Benfro, neu mor agos at y sir â phosibl, a byddant yn cael eu cynorthwyo i ddychwelyd adref ar y cyfle cynharaf. I helpu gyda hyn, rydym yn ceisio datblygu ein cyfleusterau gofal preswyl ni ein hunain o fewn y sir. Mae hyn yn cynnwys cynnig ar gyfer uned breswyl i bobl ifanc mewn gofal i'w helpu i baratoi ar gyfer annibyniaeth a bywyd fel oedolyn. Rydym hefyd wedi caffael eiddo i'w ddefnyddio i ddatblygu ein gwasanaeth asesu a chymorth mewnol ni ein hunain ar gyfer rhieni a babanod, gan leihau'r angen i gomisiynu gwasanaethau i ffwrdd o'r ardal a galluogi rhieni i aros yn eu hardal leol i gael cymorth ac ymyriadau.



Mae datblygiadau arwyddocaol yn yr arfaeth ar gyfer recriwtio ym maes gofal maeth gyda golwg ar ehangu ein hadnoddau mewnol. Bydd ein dull marchnata a recriwtio lleol yn cael ei ddatblygu mewn ffordd fwy strategol, gydag egwyddorion dadansoddi data a gwybodaeth fusnes yn cael eu cymhwyso i'r broses, gan ddarparu ar gyfer marchnata a recriwtio wedi'u targedu sy'n ymateb i'r galw lleol. Mae Sir Benfro hefyd yn bartner lleol yn yr ymdrech cenedlaethol i ddatblygu a lansio brand 'Maethu Cymru', a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i roi cyhoeddusrwydd pellach i faethu trwy wefan genedlaethol, a hynny'n cael ei ategu gan arbenigwyr marchnata a chyfathrebu. Mae datblygiadau hefyd yn cynnwys ymdrechion i safoni taliadau, cymorth a hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth ar draws cynghorau.

Mae gwasanaethau plant Sir Benfro'n bwriadu gwella'n sylweddol sut y maent yn rhyngweithio â'r plant a'r bobl ifanc y maent yn eu cefnogi, yn eu hamddiffyn ac yn rhoi gofal iddynt. Byddwn, gyda chymorth Swyddog Hawliau Plant a Phobl Ifanc Sir Benfro, yn sicrhau bod hawliau plant yn ganolog i'r hyn yr ydym yn ei wneud, a bod plant a phobl ifanc yn cael eu grymuso i gyfranogi a chydgynhyrchu cynlluniau, polisiau a gweithdrefnau. Bydd Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn flaenllaw yn ein prosesau penderfynu, a byddwn yn dilyn arweiniad Comisiynydd Plant Cymru i geisio sefydlu dull a arweinir gan hawliau yn ein gwaith. Rydym eisoes wedi cyflwyno cynrychiolydd pobl ifanc ar ein Bwrdd Rhianta Corfforaethol ac wedi dechrau datblygu gweithgarwch ymgynghori ar gyfer plant ag anabledd sy'n mynychu ein huned seibiant. Bydd gwaith yn y dyfodol yn cynnwys cyflwyno siarter i blant a phobl ifanc, y bydd y broses o'i datblygu'n cynnwys amrywiaeth o grwpiau pobl ifanc yn uniongyrchol.

Mae cydweithio rhanbarthol yn faes gweithgarwch cynyddol ar gyfer gwasanaethau plant yng Ngorllewin Cymru a bydd Sir Benfro'n bartner allweddol yn y gwaith o ddatblygu fforwm comisiynu rhanbarthol ar gyfer plant ag anghenion cymhleth. Bydd hyn yn cryfhau ein gallu i gomisiynu lleoliadau priodol mewn modd cydweithredol, yn enwedig gyda chydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd. Rydym hefyd yn cydweithio gyda chydweithwyr rhanbarthol i ddatblygu darpariaeth breswyl ranbarthol ar gyfer plant â'r anghenion mwyaf cymhleth, a fydd yn ein galluogi i gadw plant o'r fath yn nes at adref a dibynnu'n llai ar ddarpariaeth yn y sector preifat sydd wedi'i lleoli i ffwrdd o Sir Benfro a'r rhanbarth.



Deilliannau Addysgol

Mae gwella deilliannau addysgol yn flaenoriaeth allweddol i'r Weinyddiaeth. Ein gweledigaeth yw:

- Galluogi pob dysgwr, ni waeth beth fo'u cefndir, i fod y gorau y gallant fod
- Ysbrydoli pob dysgwr i fod yn uchelgeisiol, galluog, hyderus, cyfrifol a chydnerth
- Creu amgylchedd llawn anogaeth lle gall pob dysgwr ffynnu, gwneud cynnydd a mynegi ei hun
- Arfogi dysgwyr i fod yn ddinasyddion byd-eang amlieithog hyderus, sydd wedi'u gwreiddio yn eu hiaith Gymraeg a'u diwylliant Cymreig

Rydym yn cydweithio gyda'n hysgolion i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd yn adroddiad arolygu Estyn ac i lunio ein strategaeth sy'n gwireddu'r uchelgeisiau cenedlaethol allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys diwygio'r cwricwlwm a sicrhau darpariaeth o ansawdd da ar gyfer dysgwyr ag anghenion ychwanegol.

Gan ddefnyddio ein strategaeth gwella addysg, 'Sir Benfro 2027', mae'r cyngor yn amcanu at sicrhau bod yr holl blant a phobl ifanc yn Sir Benfro'n gallu:

- Mynychu ysgol dda
- Datblygu'r wybodaeth, y sgiliau a'r nodweddion sy'n achosi iddynt ddod yn ddinasyddion sy'n llwyddiannus yn bersonol, yn gynhyrchol yn economaidd ac sy'n ymgysylltu'n frwd
- Dod yn ddysgwyr hapus a chydnerth, gyda ffocws ar gyflawniad academaidd a llesiant personol
- Cael cyfle cyfartal - gyda'r cyngor yn hyrwyddo llwyddiant a chyfleoedd bywyd plant trwy gau'r bwch mewn deilliannau addysg

Rydym wedi adnabod pum maes i ganolbwyntio arnynt ar unwaith a gwneud yn siŵr ein bod yn eu cael yn iawn, sef:

- Ffocws ar addysgu o ansawdd ym mhob ystafell ddosbarth
- Disgwyliadau uchel i bawb gan gynnwys y rhai mwyaf agored i niwed
- Cryfhau recriwtio a chadw
- Cryfhau effaith trefniadau gweithio ysgol-i-ysgol
- Cryfhau arweinyddiaeth mewn ysgolion



Y Gymraeg

Cynhyrchodd Cyngor Sir Penfro Strategaeth y Gymraeg am y tro cyntaf yn 2016 ac mae hon yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd, gyda golwg ar gyhoeddi'r rhifyn nesaf a fydd yn rhedeg tan 2026. Mae'r Cyngor hefyd yn datblygu Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, sydd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn mis Ionawr 2022. Mae trafodaethau ynghylch sut y bydd y ddwy strategaeth yn cydblethu â'i gilydd ac yn ategu ei gilydd eisoes wedi dechrau.

Gwasanaeth Cynllunio

Mae Gwasanaeth Cynllunio'r Cyngor yn swyddogaeth statudol. Mae'n ofynnol iddo baratoi a monitro Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer Sir Benfro, sy'n ymwneud yn y bôn â llunio golwg a natur y sir, ac mae'n cael oddeutu 1,200 o geisiadau cynllunio bob blwyddyn. Mae'r Gwasanaeth Cynllunio hefyd yn cynnwys Tîm Gorfodi sy'n ymchwilio i achosion o dorri rheolaeth Gynllunio ac yn eu datrys. Hefyd, mae gan y gwasanaeth gylch gorchwyl sy'n ymwneud ag asedau treftadaeth, bioamrywiaeth a'r dirwedd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, tir comin a meysydd pentref.

Mae Gwasanaeth Cynllunio effeithiol yn allweddol i warchod a gwella'r amgylchedd sy'n gwneud Sir Benfro'n lle mor arbennig a deniadol i fyw, gweithio ac ymweld ag ef. Mae ganddo hefyd rôl allweddol bwysig o ran darparu tai, helpu busnesau i symud i'r sir a thyfu ynddi a rheoli'r effeithiau cysylltiedig posibl ar gymunedau a'n hamgylchedd.

Mae'r adolygiad o Gynllun Datblygu Lleol Sir Benfro'n mynd rhagddo'n dda. Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod nad yw perfformiad rhai agweddau ar y Gwasanaeth Cynllunio, gan gynnwys amseroldeb prosesu ceisiadau cynllunio, ar y lefel y mae arnom eisiau iddynt fod ar hyn o bryd. O ganlyniad, fe gynhaliom ni adolygiad cynhwysfawr yn ddiweddar er mwyn gallu deall yn well beth yw'r rhesymau dros hyn a sut y gellid mynd i'r afael â hwy. Mae newidiadau'n cael eu gwneud ar gefn hyn ac rydym yn hyderus y bydd hyn yn galluogi'r Gwasanaeth Cynllunio i ymateb yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i drigolion a busnesau. Rydym yn amcanu at fod wedi cyflawni gwelliannau amlwg a mesuradwy o fewn y 12 mis nesaf.



Prosiectau adfywio ac adeiladu allweddol sydd ar y gweill

Mae Cyngor Sir Penfro'n arwain y ffordd gyda nifer o brosiectau adfywio ac adeiladu pwysig sy'n hanfodol i olwg a ffyniant economaidd y sir yn y dyfodol. Elfen a fu'n ganolog i hyn yw creu Cronfa Gyfalaf Strategol o £20m fel sbardun i ysgogi cyllid a chymorth gan eraill.

Glan Cei'r Gorllewin, Hwlfordd

Mae Glan Cei'r Gorllewin yn rhan o gynlluniau uchelgeisiol y cyngor i adfywio Hwlfordd fel cyrchfan manwerthu a hamdden. Mae'r safle, a arferai fod yn siop adrannol wag, yn cael ei ailddatblygu i greu man masnachol hyblyg a fydd yn gallu derbyn amrywiaeth o sefydliadau yn y sector bwyd mewn amgylchedd mewnol ac allanol o ansawdd. Y nod yw creu cyrchfan a safle marchnad deniadol a byrlymus ar gyfer cynnyrch lleol, gan gyfuno hyn â'r potensial ar gyfer defnydd hamdden a chymunedol i hybu mwy o fywiogrwydd a bwrlwm yng nghanol y dref.



Mae'r dull seiliedig ar ansawdd yn cynnwys cynlluniau ar gyfer mannau cyfarfod allanol fel canolbwynt ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau cymunedol fel bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n gynnar gyda'r nos hefyd. Bydd buddsoddi ymhellach mewn seilwaith gwyrdd yn ehangu'r effaith amgylcheddol gadarnhaol ac yn hwyhau'r amser y bydd pobl yn dymuno'i dreulio yng nghanol tref Hwlfordd. Bydd y datblygiad yn cysylltu ac yn gwella'r agwedd glan afon ar Stryd y Bont, gan wella argraff gyntaf ymwelwyr o'r dref.

Glan yr Afon, Hwlfordd

Mae prynu canolfan fanwerthu Glan yr Afon yn ddiweddar yn rhoi'r cyfle i fynd i'r afael â phatrymau manwerthu newidiol ac ateg gofynion ehangach Hwlfordd.



Prynu'r safle yw'r darn olaf yn y jig-so i harneisio'r afon yn llawn fel atyniad allweddol yn y dref. Mae gan y ganolfan y potensial i ddarparu cyfleusterau manwerthu o ansawdd da a fydd yn annog mwy o ymwelwyr ac yn hwyhau'r amser y maent yn ei dreulio yn Hwlfordd.

Mae ailddatblygu'r maes parcio ceir aml-lawr yn rhan allweddol o'r dull o adfywio'r dref ac integreiddio canolfan drafnidiaeth y dref.

Cei'r De, Penfro

Mae prosiect Cei'r De'n canolbwyntio ar adnewyddu adeiladau ar Castle Terrace a chreu canolfan ymwelwyr cyhoeddus newydd, llyfrgell a chaffi. Cynigir gwelliannau i'r dirwedd a thir y cyhoedd hefyd, a'r nod yw cysylltu â Northgate Street.



Mae'r dull ar y cyfan yn un o ddangos gweledigaeth ac uchelgais i adfywio Penfro, buddsoddi yn arlwy unigryw'r dref a manteisio ar ei threftadaeth. Ailddatblygu Cei'r De fydd cam cyntaf gwireddu'r uchelgais hwn, gan ddangos ymrwymiad y cyngor i'r dref a sefydlu cyswllt rhwng castell canoloesol ac eiconig Penfro a gweddill y dref.

Parc Bwyd Sir Benfro



Datblygiad 23-acr newydd sydd wedi'i leoli ym Mharc Busnes y Llwyn Helyg ar gyrion Hwlfordd yw Parc Busnes Sir Benfro. Bydd yn rhoi cyfle hynod sylweddol i gynhyrchwyr bwyd yn Ne Orllewin Cymru, gan gynnig lleoliad deniadol ar gyfer cyfleusterau i gynhyrchu bwyd o ansawdd da a'i ddosbarthu wedi hynny. Mae hyn yn cynnwys 'unedau hybu busnesau newydd' i gefnogi entrepreneuriaid 'bwrdd cegin' trwy eu datblygiad cychwynnol fel busnes ac ymlaen at gamau cyntaf cynhyrchu ar raddfa fwy.

Mae gwaith datblygu eisoes yn digwydd ar y safle, gyda'r gwaith ar y seilwaith ffyrdd eisoes wedi'i gwblhau. Mae'n diwallu angen am fuddsoddiad ar raddfa genedlaethol a fydd yn cynnwys cymysgedd arloesol o gyfleusterau sydd â ffocws ar gynhyrchwyr bwyd a diod lleol y mae arnynt angen lle i ehangu ond y mae unedau diwydiannol safonol o bosibl yn rhy ddrud iddynt.

Rhaglen Ynni'r Môr Doc Penfro

Prosiect cydweithredol yw hwn, sy'n rhan o Fargen Ddinesig Bae Abertawe gyda'r llywodraeth a chynghorau eraill, i ddatblygu canolfan o safon fyd-eang ar gyfer ynni'r môr. Mae'n gweithredu fel sbardun i ddenu diddordeb a buddsoddiad o sector ynni'r môr a'r sector ynni gwyrdd.

Mae cynigion wedi cyrraedd camau amrywiol o ran eu datblygiad, i geisio manteisio ar ddatblygu hydrogen, ynni gwynt arnofiol ar y môr, tyrbinau sefydlog ac ynni'r tonnau. Ar y tir, mae cynigion yn cael eu harchwilio ar gyfer datblygiadau pellach o ran hydrogen, ynni gwynt ac ynni'r haul. Mae Sir Benfro mewn sefyllfa ddelfrydol, yn ddaearyddol ac yn dopograffigol i fanteisio i'r eithaf ar gyfleoedd o'r fath, gan roi i'r sir ac i Gymru lefelau uwch o gynhyrchu, annibyniaeth a chydnerthedd ynni. Bydd y prosiect yn ehangu ar safle clwstwr sgiliau uchel presennol y rhanbarth ac yn datblygu ac yn gwella'r seilwaith a'r cyfleusterau presennol. Bydd hyn helpu i lansio diwydiant newydd a all ddwyn manteision sylweddol i'r gadwyn gyflenwi leol a chymuned arfordirol Sir Benfro, yn ogystal â Chymru a'r DU ehangach.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Menter gan Lywodraeth Cymru a gyflawnir gyda chynghorau a phartneriaid allweddol eraill yw Rhaglen Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif. Mae'n canolbwyntio ar greu ysgolion a mannau dysgu eraill lle mae'r amgylchedd yn gwella'r modd y darperir addysg a safonau cyflawniad. Wrth wneud hynny, ceir hefyd safonau llym y mae angen eu cyrraedd o ran manteision amgylcheddol a chymunedol cysylltiedig sy'n deillio o'r prosiectau. Mae hyn wedi cynnwys creu 84 o brentisiaethau a mwy na 7,000 o wythnosau o waith i hyfforddeion, pobl ddi-waith a phobl sy'n gadael addysg neu hyfforddiant. Mae hefyd yn ein galluogi i leihau'r arian y byddai angen i ni ei wario ar gynnal a chadw adeiladau sydd ymhell ar ôl yr oes.

Yn y cam cyntaf o weithgarwch, a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019, buddsoddwyd dros £120 miliwn o gyllid cyfalaf yn Sir Benfro. Yn ystod yr ail gam, sydd bellach wedi dechrau ac a fydd yn rhedeg tan 2025, bydd buddsoddiad pellach o £106 miliwn yn y sir.

Ochr yn ochr â hyn ceir gwaith i fynd i'r afael â gorboblogi neu leoedd gwag mewn ysgolion ac rydym wedi llwyddo i gyflawni hyn gydag, er enghraifft, mwy na 700 o leoedd wedi'u creu yn Ysgol Caer Elen yn Hwlfordd a mwy na 250 mewn dwy ysgol yn Aberdaugleddau. Ar yr un pryd, cafwyd gwared ar bron i 300 o leoedd gwag yn Ysgol Bro Gwaun yn Abergwaun, mwy na 200 yn Ysgol Penrhyn Dewi yn Nhyddewi a bron i 200 yn Ysgol Harri Tudur ym Mhenfro.

Mae'r cyngor hefyd wedi sicrhau cyllid gan Lywodraeth Cymru i sefydlu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar ei phen ei hun. Ym Mhenfro y bydd hon a bydd yn agor ym mis Ionawr 2023. Mae'n un o gonglfeini cyfraniad Sir Benfro tuag at ddyhead y Llywodraeth i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae cyfanswm y cyllid a sicrhawyd i gyflawni'r prosiect hwn yn fwy na £6.5m.



Cyflawniadau allweddol eraill

Yn ystod blwyddyn gyntaf y pandemig, mae'r cyngor wedi gweithio i ddosbarthu oddeutu £78 miliwn mewn grantiau gan y Llywodraeth i fusnesau lleol i sicrhau eu bod yn parhau i fodoli. Cafwyd dros 5,000 o ymholiadau ynghylch y mathau hyn o gymorth ac fe sefydlodd y cyngor ystod helaeth o gyfathrebiadau i helpu cwmnïau lleol i ddeall beth oedd ar gael iddynt.

Fe arweiniodd y pandemig hefyd at greu Hwb Cymunedol Sir Benfro, gyda'r cyngor yn cyflawni rôl a alluogodd ymdrechion enfawr pobl leol i wneud gwahaniaeth hanfodol yng nghyd-destun materion bywyd a marwolaeth go iawn. Roedd hyn wedi'i ganoli ar gefnogi pobl a oedd yn gwarchod, gan gynnwys dosbarthu pecynnau bwyd. Bu dros 100 o grwpiau cymunedol yn ymwneud â'r Hwb er mwyn cefnogi'r ymateb.



Trwy gydol y pandemig mae ein Canolfan Gyswllt wedi aros ar agor i ymdrin â'r holl ymholiadau gan y cyhoedd. Nid yw'n syndod ein bod wedi gweld cynnydd o 20%, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, mewn galwadau yn ystod y cyfnod rhwng mis Ebrill 2020 a mis Mawrth 2021, gyda chyfartaledd o dros 19,000 o alwadau y mis yn cael eu hateb.

Fe achosodd Covid-19 chwyldro digidol a buom yn gweithio gyda Cymunedau Digidol Cymru i alluogi pobl i gadw mewn cysylltiad gan gynnwys, yn allweddol bwysig, y rhai sy'n byw mewn cartrefi gofal. Fe wnaeth cydweithio rhwng gwasanaethau addysg a phlant yn ystod y pandemig olygu bod darpariaeth gynhwysfawr mewn ysgolion ar gael i blant agored i niwed yn ystod cyfnod y cyfyngiadau symud, gan roi cymorth i blant a theuluoedd a diogelu rhai o'r plant hynny a allai fod wedi bod yn wynebu mwy o risg o niwed.

Hyd yn hyn yn ystod y pandemig, fe wnaed dros 15,000 o ymatebion argyfwng a brys ar gyfer gwaith atgyweirio mewn tai cyngor. Hefyd, ac er gwaethaf pwysau oherwydd cyfyngiadau ar arferion gweithio ac argaeledd deunyddiau a chontractwyr, roeddem yn gallu sicrhau y gallai gwaith gwella wedi'i gynllunio i dai cyngor barhau a gwneud defnydd llawn o'r cyllid grant yr ydym wedi'i gael gan Lywodraeth Cymru. Fe gyfyngodd y pandemig hefyd ar ein gallu i wneud addasiadau yng nghartrefi pobl, gan mai dim ond gwaith a oedd yn gysylltiedig ag achosion brys a phobl yn cael eu rhyddhau o'r ysbyty yr oeddem yn gallu ei wneud. Er bod hyn wedi achosi gostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, cafodd 285 o gartrefi eu haddasu, gan alluogi pobl i aros gartref, neu ddychwelyd adref, yn ddiogel.

Yn ystod cyfnod Covid-19, mae ein hymgysylltiad â thenantiaid tai cyngor wedi canolbwyntio ar gyfathrebu mewn modd cywir, hygyrch ac amserol gyda hwy. O ganlyniad i'n Strategaeth Cyfranogiad Tenantiaid rydym wedi gwneud cynnydd da ym maes ymgysylltu digidol. Fe lansiom ni ein tudalen Facebook ar gyfer y gwasanaeth tai ac fe alluogodd hyn ni i barhau i ymgysylltu yn ystod y pandemig â phobl a fyddai wedi defnyddio gwasanaethau eraill, megis ein canolfannau gwasanaeth cwsmeriaid, fel arfer. Mae hefyd wedi ein rhoi mewn cysylltiad â thenantiaid eraill, gan eu galluogi hwythau i gael mynediad at wasanaethau, gwneud ymholiadau a chael ymatebion cyflym. Hefyd, fe wnaed dros 5,500 o alwadau lles i denantiaid yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf ac rydym wedi parhau â hyn yn ystod cyfyngiadau symud dilynol.



Rydym wedi sicrhau bod y tollau ar Bont Cleddau'n cael eu gwaredu, gyda manteision economaidd a chymdeithasol i fusnesau, pobl leol ac ymwelwyr o ganlyniad.

Rydym wedi sefydlu 'Grant Gwella Sir Benfro' gan ddefnyddio arian a grëwyd o bremiwm y dreth gyngor a godir ar ail gartrefi ac eiddo gwag yn y sir. Mae hyn yn cefnogi prosiectau cymunedol sydd wedi'u bwriadu i leihau effaith perchnogaeth ar ail gartrefi a gwella cynaliadwyedd yn y cymunedau hynny.

Rydym yn awyddus i wella ein perthnasoedd â chynghorau dinas, tref a chymuned ymhellach, gan weithio gyda sefydliadau megis Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS), PLANED ac Un Llais Cymru. Mae nifer o seminarau ar y cyd yn yr arfaeth i archwilio sut yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd wrth edrych tua'r dyfodol.

Rydym wedi lansio'r platfform digidol 'Cysylltu Sir Benfro' i gefnogi cysylltiadau cymunedol, gweithgareddau cymunedol a hybu bancio amser a chynffwrdd anffurfiol rhwng pobl. Hefyd, rydym wedi sefydlu'r ymgyrch 'Cysylltu â Charedigrwydd' i wella llesiant fel rhan o alluogi cymunedau egniol, cysylltiedig a dyfeisgar.

Mae cyllid wedi cael ei sicrhau i ddatblygu cyfleoedd gwirfoddoli ymhlith cyflogaion y cyngor er mwyn cefnogi cymunedau a mentrau lleol.

Yn erbyn cefnlen ariannol ddigynsail, rydym yn ymrwymedig i wneud popeth a allwn i barhau i wella cynhyrchiant o fewn y cyngor. Mae cyflwyno ein prosiect 'Gweithio'n Glyfrach', sy'n canolbwyntio ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth, wedi ein galluogi i barhau i weithredu yn ystod y pandemig ac rydym wedi gweld codiadau mewn cynhyrchiant o ganlyniad.

Rydym yn cyflawni ystod o brosiectau ar draws y cyngor sy'n gysylltiedig â'n hymgyrch i sicrhau arbedion a gwella gwasanaeth cwsmeriaid. Mae rhai enghreifftiau yn unig i'w cael isod:

- Cyflwyno technoleg gan alluogi staff gofal cymdeithasol i weithio a gweithredu o unrhyw leoliad, gan gynnwys gartref, gan leihau teithio diangen a chynyddu'r amser y gallant ei dreulio gyda phobl mewn cymunedau
- Datblygu technoleg i gefnogi ein staff allan yn y gymuned sy'n cynnal a chadw tai, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a gwella gwasanaeth cwsmeriaid
- Ym maes addysg, rydym yn rhoi technoleg ar waith i'r holl ysgolion i roi cymorth i gynnwys 'digidol' fel elfen ganolog o'r cwricwlwm
- Rydym wedi darparu technoleg ar gyfer dros 500 o ddisgyblion ysgol i sicrhau eu bod yn gallu parhau â'u haddysg gartref yn ystod y pandemig
- Rydym wedi cyflwyno gwasanaeth negeseua testun i helpu cwsmeriaid, gan gynnwys ein gwasanaeth atgoffa am gasgliadau gwastraff
- Mae ein cyfleuster 'Penfro' gan ddefnyddio deallusrwydd artiffisial, wedi cael ac anfon mwy na 300,000 o ymholiadau a negeseuon, gan helpu cwsmeriaid ddydd a nos
- Fe lansiom ni ein platfform digidol FyNghyfrif newydd ar gyfer dinasyddion a busnesau ym mis Mawrth 2021, gyda thros 27,000 o ddefnyddwyr yn cofrestru
- Fe wnaeth darparu technoleg mynediad o bell gefnogi'r broses ddemocrataidd yn Sir Benfro, trwy ei gwneud yn bosibl cynnal cyfarfodydd ffurfiol y cyngor, yn ystod y pandemig



Gyda phartneriaid, rydym wedi sefydlu 'Croeso Sir Benfro' fel y sefydliad rheoli cyrchfan amlasiantaeth cyntaf yng Nghymru er mwyn cynyddu i'r eithaf y manteision i'r sir sy'n deillio o dwristiaeth. Mae cynllun rheoli cyrchfan newydd wedi cael ei sefydlu hefyd, ynghyd â chymorth parhaus ar gyfer digwyddiadau mawr.

Rydym wedi sefydlu strategaeth hamdden 10 mlynedd gyda chynlluniau ar gyfer buddsoddi ymhellach, gan gynnwys cymorth ar gyfer caeau chwarae 4G, marchnata gwell a mynediad gwell at gyfleusterau.

Dros y tair blynedd nesaf rydym wedi cyflawni oddeutu 15km o welliannau 'Teithio Llesol' i'r rhwydwaith beicio a throedffyrdd i ddarparu cysylltedd gwell yn y sir. Mae'r cyngor wedi cael dros £1.3m i gyflawni cynlluniau ychwanegol yn 2021/2022 ac wedi cynnal ymgynghoriad helaeth â thrigolion ynghylch hyn, gan ennyn oddeutu 4,000 o ymatebion.

Rydym wedi cynyddu ein cohort o weithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant i gynorthwyo ein cyflenwad o staff yn y dyfodol

Rydym yn datblygu ein defnydd o brentisiaethau fel cyngor, gyda'r sgiliau a'r manteision o ran cyflogaeth a ddaw yn sgîl hynny

Rydym yn cyflawni gwerth £1m yn ychwanegol o gynlluniau diogelwch ar y ffyrdd eleni

Rydym wedi cynyddu ein hadnoddau mewn perthynas â glanhau strydoedd a thipio anghyfreithlon, y gwyddom eu bod yn flaenoriaeth i'n trigolion

Ni oedd y cyngor cyntaf yng Nghymru i weddarlledu holl gyfarfodydd ffurfiol ein cyngor

Dechreuodd ein prosiect 'Gweithio'n Glyfrach' yn 2018 ac mae wedi bod yn allweddol i foderneiddio'r ffordd yr ydym yn gweithio. Bu'r trefniadau gweithio hyblyg y mae hyn wedi'u galluogi'n hollbwysig i sicrhau, cyn gynted ag y daeth argyfwng Covid-19 i'r fei, bod gwasanaethau hanfodol yn gallu parhau i redeg am bod staff yn gweithio gartref. Mae hefyd wedi ein galluogi i leihau ein hanghenion a chostau o ran swyddfeydd. Rydym wedi buddsoddi oddeutu £370,000 i gefnogi ein ffyrdd newydd o weithio ac yn gyfnewid rydym wedi gwerthu gwerth bron i £500,000 o adeiladau, wedi lleihau ein costau rhedeg bron i £400,000 y flwyddyn ac wedi osgoi costau o bron i £4.5m a fyddai wedi bod yn angenrheidiol i sicrhau bod adeiladau'n dal i fod o'r safon sy'n ofynnol.

Ac, yn olaf, rydym wedi cael ein cadarnhau unwaith eto fel y gorau un yng 'Ngwobrau Tŷ Bach y Flwyddyn' eleni!
